

Uned 2: Ymddygiad a Disgyblaeth yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swydddogol

Canllawiau cyflwyno

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ymchwilio i ffactorau sy'n gallu effeithio ar ymddygiad a'u heffaith ar ddisgyblaeth (ac ufudd-dod) unigolion a grwpiau yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ystod o ddamcaniaethau sy'n darparu sylfaen ar gyfer ymddygiad, a sut caiff y rhain eu cymhwyso yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol. Y diffiniad o'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol yw'r lluoedd arfog, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub, a'r gwasanaethau gwarchodol. Bydd y dysgwyr yn gallu deall sut defnyddir awdurdod er lles yr unigolyn a'r gymdeithas gyfan, a dylent fedru enwi enghreifftiau o'r mathau allweddol o awdurdod yn y sector a ddewiswyd ganddynt.

Gallech gyflwyno'r uned hon gan ddefnyddio cyfuniad o theori (i gyflwyno'r dysgwyr i'r topigau a restrir yng nghynnwys yr uned), ymweliadau a siaradwyr gwadd (i alluogi'r dysgwyr i gymhwyso'r cysyniadau damcaniaethol y maent wedi'u dysgu).

Mynd i'r afael â'r uned

Mae Nod dysgu A yn galw am addysgu'r dulliau o ymdrin â seicoleg a damcaniaethau allweddol yn ffurfiol (Topig A.1) yng nghyswllt y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad.

Dylai'r dysgwyr gael cyfle i wneud gwaith ymchwil ar y gwahanol ddamcaniaethau seicolegol, megis y prif safbwyntiau seicolegol yng nghyswllt ymddygiad (Topigau A1 ac A2).

Bydd trafodaethau dosbarth yn ddefnyddiol er mwyn i'r dysgwyr fedru archwilio damcaniaethau a gweld sut maent yn perthyn i enghreifftiau o wasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swydddogol. Gallai'r dysgwyr drafod theori meddylfryd Dweck a chanolbwyntio ar sut mae'r hyn a gredir ynghylch gallu a doniau yn effeithio ar ymddygiad, a sut gall meddylfryd sefydlog yn hytrach na meddylfryd twf effeithio ar unigolion a'r rolau maent yn ymgymryd â hwy yn y gwasanaethau amddiffyn (Topig A4).

Mae modd addysgu'r topig hwn trwy ganiatáu i'r dysgwyr brofi sesiynau ymarferol, er enghraifft cyflawni gweithgareddau ar ffurf tasgau gorchymyn, tasgau datrys problemau, sy'n galw am waith tîm, cydweithrediad a chyfathrebu ganddynt. Bydd hyn yn gyfle iddynt roi'r theori ar waith, cael profiad o theori meddylfryd, a dod i ddeall dylanwadau allweddol ar ymddygiad.

Yn achos Nod dysgu B, mae angen i'r dysgwyr wybod am yr angen i fod yn ufudd a chydymffurfio yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol.

Gallech ddefnyddio cyflwyniadau dan arweiniad tiwtor i drosglwyddo gwybodaeth i'r dysgwyr am y gwahanol fathau o ufudd-dod, y berthynas rhwng ufudd-dod a chydymffurfiaid, a phwysigrwydd ufuddhau i orchmynion a chyfarwyddyd (Topig B1). Gellid cyflwyno'r topig hwn hefyd trwy ymchwil annibynnol a wnaed gan y dysgwyr, fel eu bod yn cynhyrchu cyflwyniadau PowerPoint, y gallant eu cyflwyno i'r dosbarth.

Gellid archwilio effaith ufudd-dod ac anufudd-dod trwy roi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu chwaraeon tîm (Topig B2).

Yn achos Nod dysgu C, mae angen i chi gyflwyno'r dysgwyr i gydymffurfio a'i rôl yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol.

Mae'r topig hwn yn un addas ar gyfer ymweliad â chanolfan addysg gwasanaeth amddiffyn priodol sydd â gwisg swydddogol, lle caiff recriwtiaid eu hyfforddi (er enghraifft, ysgol hyfforddi ar gyfer gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swydddogol). Bydd y dysgwyr yn gallu creu cysylltiadau rhwng theori cydymffurfio ac ymarfer neu weld enghreifftiau o gymhwyso hunanddisgyblaeth a gallu creu cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.

Gallech ddefnyddio'r tiwtor i gyflwyno gwybodaeth am nodweddion allweddol astudiaethau ymchwil a'r dull o'u cymhwyso i weithio yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol.

Mae modd defnyddio trafodaethau dosbarth i ganfod gweithgareddau sy'n arddangos hunanddisgyblaeth a chydymffurfio.

Yn achos Nod dysgu D, mae angen i chi roi digon o gyfleoedd i'r dysgwyr rannu'r hyn maent yn ei wybod am ddisgyblaeth a'i rôl yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol. Gallech chi ddefnyddio cyflwyniadau dan arweiniad y tiwtor i roi gwybodaeth i'r dysgwyr am rôl disgyblaeth yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol a'r angen am ddisgyblaeth (Topigau D1 a D2).

Mae modd cyflwyno'r topig hwn trwy drefnu ymweliad â lleoliad gwasanaeth amddiffyn priodol sydd â gwisg swydddogol, lle bydd y dysgwyr yn gallu gweld enghreifftiau o ddisgyblaeth yn cael ei chymhwyso a'i dilyn yn y gwasanaeth hwnnw ac mewn gwahanol rolau. Bydd angen i'r dysgwyr fedru creu cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.

Yn achos Nod dysgu E, mae angen i chi roi digon o gyfleoedd i'r dysgwyr holi ynghylch straen a sut gallai ddod i'r amlwg, ac archwilio'r cysyniad hwnnw. Gallai'r dysgwyr ymwneud â thrafodaethau'r dosbarth a chwrdd â siaradwyr gwadd, fydd yn gallu siarad â nhw am eu profiadau o weithio mewn sefyllfaoedd straenus a'r materion iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â straen am gyfnodau estynedig.

Mae Nod dysgu F yn addas ar gyfer trafodaethau dosbarth, er mwyn i'r dysgwyr fedru rhannu enghreifftiau o wasanaethau amddiffyn penodol sydd â gwisg swydddogol, er enghraifft canfod achosion sefyllfaoedd llawn tensiwn (Topig F1).

Mae cyflwyniadau dan arweiniad tiwtor yn golygu bod modd addysgu'r theori i'r dysgwyr, cyn iddynt gymhwyso'r theori honno i sefyllfaoedd 'bywyd go iawn'. Dylai'r hyn a gwmpasir gynnwys gwybodaeth am y cylch agwedd-ymddygiad/Betari Box (Topig F2), sut gall lefelau bygythiad esgaladu mewn gwrthdaro, a sut gall ymddygiad/gweithredoedd ddylanwadu ar ganlyniad sefyllfa.

Gallwch chi ddefnyddio gweithgareddau chwarae rôl fel bod modd i'r dysgwyr ystyried iaith eu corff, arwyddion rhybudd cynnar o ymosodedd, mathau o ymddygiad, a sut gall lefelau bygythiad esgaladu i wrthdaro (Topig F3). Mae modd tynnu sefyllfaoedd o Dopig F1.

Bydd yn ddefnyddiol i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o brofiadau uniongyrchol eraill yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol. Gallech drefnu bod siaradwr gwadd yn trafod enghreifftiau o ddefnyddio cyfathrebu i ddadesgaladu gwrthdaro posibl mewn gwahanol wasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swydddogol (Topig F4).

Rhaid dyrannu amser i'r dysgwyr yn eu gwersi i adolygu'r topigau y mae Topig F yn eu cwmpasu. Dylent ymchwilio'n annibynnol a pharatoi nodiadau ar gyfer yr asesiad ar y topig hwn. Dylech ganiatáu i'r dysgwyr ddefnyddio'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i ymarfer paratoi ar gyfer asesiad.

Canllawiau asesu

Asesir yr uned hon yn allanol, trwy arholiad ysgrifenedig a osodir gan Pearson. Bydd yr arholiad yn ddwy awr o hyd. Nifer y marciau ar gyfer yr uned yw 80, a bydd asesiad ar gael ym mis Ionawr a Mai/Mehefin bob blwyddyn.

I gefnogi canlyniad llwyddiannus, bydd yn fuddiol i'r dysgwyr ymarfer paratoi ar gyfer yr asesiad fel eu bod yn gyfarwydd â mesurau rheoli'r asesiad a'r hyn y disgwylir iddynt ei gynhyrchu. Dylech sicrhau hefyd fod y dysgwyr yn gyfarwydd â'r termau allweddol a ddefnyddir yn nodweddiadol wrth asesu'r uned hon.

Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 4: Paratoad Corfforol, Iechyd a Llesiant
- Uned 5: Gwaith Tîm, Arweinyddiaeth a Chyfathrebu yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swydddogol
- Uned 9: Persbectifau Cymdeithasegol
- Uned 13: Cyflwyniad i Droseddeg

Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swydddogol. Edrychwch ar wefan Pearson (<http://qualifications.pearson.com/endorsedresources>) i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

Cyfnodolion

Fire

Police Review

Soldier Magazine

Gwefannau

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am hierarchaeth Maslow (Topig A2) ar gael ar wefan *Simply Psychology*.

Mae'r gwefannau canlynol yn darparu astudiaethau achos a gwybodaeth ddefnyddiol:

www.verywellmind.com

www.simplypsychology.org

Mae'r gwefannau canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r dysgwyr archwilio'r gofynion hyfforddi a'r nodweddion cymeriad sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i'r gwasanaethau cyhoeddus:

Gwefan Conffederasiwn GIG Rhwydwaith y Gwasanaeth Ambiwlans

Gwefan Byddin Prydain

Gwefan y Gwasanaeth Tân

Gwefan Gwasanaeth Carcharau Ei Mawrhydi

Gwefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Gwefan Gwybodaeth Gwasanaeth yr Heddlu (y Swyddfa Gartref)

Gwefan yr Awyrlu Brenhinol

Gwefan y Llynges Frenhinol/y Môr-filwyr Brenhinol

Nid yw Pearson yn gyfrifol am gynnwys unrhyw safleoedd allanol ar y rhyngwrwyd. Mae'n hanfodol bod tiwtoriaid yn edrych ar bob gwefan ymlaen llaw cyn ei defnyddio yn y dosbarth, er mwyn sicrhau bod yr URL yn dal yn gywir, yn berthnasol ac yn briodol. Rydym ni'n awgrymu bod tiwtoriaid yn rhoi llyfrnod ar wefannau defnyddiol ac yn ystyried galluogi'r myfyrwyr i gael mynediad atynt trwy fewnwrwyd yr ysgol/y coleg.